**Y Pasg**

**Cyduned Seion Lân**

Y mae James Hughes (1779-1844), a adnabyddir yn hanes crefydd gyda'i enw barddol Iago Trichrug, yn gryn gymwynaswr i Gristnogaeth Gymraeg. Treuliodd ei lencyndod yn Nyffryn Aeron ac yn arbennig ardal Talsarn, ger Llanbedr-Pont-Steffan. Ac ar y ffordd o Dalysarn i Nebo ceir rhiw fawr dros fynydd Trichrug a dyna lle y cafodd ef ei ffugenw. Ar waethaf anawsterau lu derbyniodd oleuni'r Efengyl a phenderfynu mentro ar ddiwedd 1799 i ardal Llundain, i weithio yn Iard y Tÿ Coch, iard longau yn Deptford. Daliodd i gredu yn yr addewidion a glywodd yn niwedd y Diwygiad Methodistaidd a chaniatawyd iddo bregethu yn 1810 a'i ordeinio yn Llangeitho, lle y meithrinwyd ef yn y Ffydd, yn 1816. Bu o 1799 i ddiwedd ei oes yn alltud yn Llundain a phan fu farw claddwyd ef ym mynwent enwog Bunhill Fields.

Yn *Caneuon Ffydd*, ceir emyn o'i eiddo, rhif 163, sy'n wefreiddiol gan ei fod ef yn galw ar yr Eglwys Gristnogol i lawenhau a gorfoleddu mewn 'cân bereiddia'i blas'. Braint yw moliannu Duw am ei drugareddau, ei roddion a'i ras yng Nghrist Iesu. Gofynna'r awdur gwestiwn teg:

> 'Ble gwelir cariad fel
> ei ryfedd gariad Ef?'

Dyma gariad Duw na allwn ni ei gymharu o gwbl. Ond myn ei Galfiniaeth iddo ddweud:

> Fe'n carodd cyn ein bod,
> a'i briod Fab a roes,
> yn ôl amodau hen y llw,
> i farw ar y groes.

Onid ef o'r emynwyr sy'n dweud yn gofiadwy y gwirionedd am ddarpariaeth Duw yn ei Fab ac yn nioddefaint yr Anwylyd ar Groes Calfaria? Beth gyflawnodd Iesu hwn felly? Y mae'r ateb yn glir a chryno:

> Gwnaeth Iesu berffaith Iawn
> brynhawn ar Galfari:
> yn ei gyfiawnder pur di-lyth
> mae noddfa byth i ni.

Llawenhawn yn ein hofnau am fod gennym noddfa dragwyddol drwy weithred rymus Croes Calfaria yn aberth gogoneddus y Gwaredwr.

***D. Ben Rees***